OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1272

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

**Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu a swyddogaethau panel mabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys —

(a) i awdurdod lleol(**1**) y mae darpar fabwysiadydd wedi cyflwyno cais iddo am gael ei asesu yn unol â rheoliad 3(2)(a) o Reoliadau 2001; a

(b) i gymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd(**2**)) sydd wedi cytuno i asesu darpar fabwysiadydd sydd wedi cyflwyno cais iddi yn unol â'r rheoliad hwnnw.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu(**3**) asesu darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliadau 8 (dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd(**4**) ac 8A (collfarnau troseddol darpar fabwysiadydd)(**5**) o Reoliadau 1983.

(3) Rhaid i banel mabwysiadu y cyfeirir achos darpar fabwysiadydd ato ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu sy'n cyfeirio'r achos ynghylch a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu, yn unol â rheoliad 10 (swyddogaethau panel mabwysiadu)(**6**) o Reoliadau 1983.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) gwneud penderfyniad ynghylch addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu a hysbysu'r darpar fabwysiadydd am y penderfyniad, yn unol â rheoliad 11A (penderfyniadau a hysbysiadau asiantaethau mabwysiadu - darpar fabwysiadwyr)(**7**) o Reoliadau 1983; a

(b) pan fydd yr asiantaeth wedi penderfynu cymeradwyo'r darpar fabwysiadydd yn un sy'n addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu, hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifenedig am y penderfyniad hwnnw a darparu iddo —

(i) yr holl wybodaeth a ystyriwyd gan y panel mabwysiadu cyn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu; a

(ii) unrhyw wybodaeth arall mewn perthynas ag achos y darpar fabwysiadydd y bydd arno ei hangen.

---

(**1**) Mae i "awdurdod lleol" yr un ystyr ag i "local authority" yn adran 72(1) o Ddeddf 1976.
(**2**) Mae i "cymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd" yr un ystyr ag i "approved adoption society" yn adran 72(1) o Ddeddf 1976.
(**3**) Mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr un ystyr ag i "adoption agency" yn adran 1(4) o Ddeddf 1976, sef awdurdod lleol neu gymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd.
(**4**) Diwygiwyd rheoliad 8 gan O.S. 1997/2308.
(**5**) Mewnosodwyd rheoliad 8A gan O.S. 1997/2308.
(**6**) Diwygiwyd rheoliad 10 gan O.S. 1997/649.
(**7**) Mewnosodwyd rheoliad 11A gan O.S. 1997/649 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2308.